------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 21 Hydref 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

## Agenda

(224)v3

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Adnewyddu'r Polisi Newid yn yr Hinsawdd (45 munud)**

**5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd: Iawndal TB – Y Camau Nesaf (30 munud)**

**6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth – Gohiriwyd**

**7 Dadl: Dyfodol Datganoli i Gymru (60 munud)**
**NDM5605**

**Jane Hutt (Bro Morgannwg)**
**Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**
**Elin Jones (Ceredigion)**
**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu ymrwymiad y Prif Weinidog y bydd Cymru yn rhan ganolog o'r ddadl ar ddyfodol y Deyrnas Unedig.
2. Yn galw am gyd-drafodaethau sydd wedi'u llywio gan ganfyddiadau Comisiynau Holtham a Silk 1, gan gynnwys asesiad diweddar o lefel bresennol cyllid cymharol Cymru ac i ba gyfeiriad y mae'n debygol o fynd yn y dyfodol.

3. Yn galw ar y trafodaethau hynny, a ddylai ddechrau ar unwaith a dod i ben erbyn mis Ionawr 2015, i ganolbwyntio'n benodol ar ariannu teg, gyda'r nod o sicrhau bod cyllid gwaelodol yn cael ei weithredu ar frys sy'n rhoi sylw i danariannu mewn modd sy'n gyson ag anghenion Cymru ac sy'n atal cydgyfeirio yn y dyfodol.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i:

a) sicrhau bod yr un pwerau'n cael eu rhoi i Gymru o ran datganoli Treth Gorfforaeth os yw'r pwerau hynny'n cael eu rhoi i Ogledd Iwerddon a'r Alban;
b) datganoli Toll Teithwyr Awyr ar gyfer hediadau pellter hir uniongyrchol;
c) adolygu lefel y pwerau benthyca a roddir i Gymru ym Mil Cymru; ac
d) cydweithio â Llywodraeth Cymru i'w galluogi i gyhoeddi ei bondiau ei hun.

5. Yn ceisio cydnabyddiaeth os yw penderfyniad yn cael ei gymryd i gynnal Refferendwm ar  bwerau amrywio trethi, y dylai hyn adlewyrchu barn pobl Cymru.

6. Yn ceisio cadarnhad y bydd y model Cadw Pwerau yn cael ei sefydlu ar gyfer Cymru.

7. Yn galw ar Lywodraeth y DU i roi'r pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i bennu ei drefniadau etholiadol.

8. Yn galw ar Lywodraeth y DU i wneud cynnydd o ran Silk 2.

9. Yn cadarnhau y dylid datblygu'r materion hyn ymhellach mewn cynigion deddfwriaethol, a gyhoeddir cyn diwedd sesiwn seneddol bresennol San Steffan.

**8 Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (60 munud)**
**NDM5599 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 2013-14, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Awst 2014.

**Dogfen Ategol**
Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 2013-14

**9 Cyfnod Pleidleisio**

**10 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5602 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Anodd ei stumogi: clefyd seilag a'r angen i wella'r ddarpariaeth o fwyd heb glwten yng Nghymru.

Bwriad y ddadl hon yw cynyddu ymwybyddiaeth o glefyd seilag a'i ddiagnosis yng Nghymru yn ogystal â'r diffyg bwyd heb glwten mewn ysgolion, ysbytai a chartrefi gofal.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 22 Hydref 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 16 Hydref 2014 i'w hateb ar 21 Hydref 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth o ofal iechyd brys yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)1909(FM)

2. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): **A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cynhwysiant digidol yng Nghymru?** OAQ(4)1908(FM)

3. Elin Jones (Ceredigion): Pa fesurau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i amddiffyn y diwydiant amaethyddol yn wyneb y cwymp diweddar mewn incwm nifer o ffermwyr? OAQ(4)1910(FM)W

4. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i amddiffyn pobl ifanc rhag cael eu cam-drin yn rhywiol ar-lein? OAQ(4)1914(FM)

5. Mick Antoniw (Pontypridd): A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu asesiad o'r potensial ar gyfer cydweithredu economaidd rhwng Cymru a de-orllewin Lloegr? OAQ(4)1915(FM)

6. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar oblygiadau refferendwm yr Alban i Gymru? OAQ(4)1905(FM)

7. Peter Black (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth Cymru ar absenoldeb o'r ysgol? OAQ(4)1906(FM)

8. Sandy Mewies (Delyn): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed yng Nghymru? OAQ(4)1917(FM)

**9. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau a gafodd y Prif Weinidog ynghylch camau i ddiogelu'r iaith Gymraeg yn y Bil Cynllunio? OAQ(4)1912(FM)**W**

**10. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y setliad cyllidebol i gynghorau Cymru? OAQ(4)1911(FM)

**11. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y trafodaethau y mae wedi'u cael ynghylch dyfodol y diwydiant dur yn ne Cymru? OAQ(4)1913(FM)

12. *Christine Chapman (Cwm Cynon):* **Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu pobl y mae tlodi mewn gwaith yn effeithio arnynt yng Nghwm Cynon?** OAQ(4)1916(FM)

**13. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i baratoi ar gyfer achosion posibl o Ebola? OAQ(4)1904(FM)

**14. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar strategaeth ynni Cymru at y dyfodol? OAQ(4)1918(FM)

**15. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar barcio mewn ysbytai? OAQ(4)1907(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Toriad: Dydd Llun 27 Hydref 2014 - Dydd Sul 2 Tachwedd 2014**
**Dydd Mawrth 4 Tachwedd 2014 a dydd Mercher 5 Tachwedd 2014**
**Dydd Mawrth 11 Tachwedd 2014 a dydd Mercher 12 Tachwedd 2014**
**Dydd Mawrth 18 Tachwedd 2014 a dydd Mercher 19 Tachwedd 2014**
*********************************************************************

**Dydd Mawrth 4 Tachwedd 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Diwygio Cymwysterau (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Perfformiad o ran Ailgylchu (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb a Darparu yn y Dyfodol (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol 2013-14 (30 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol 2013-14 Comisiynydd y Gymraeg (60 munud)

**Dydd Mercher 5 Tachwedd 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i Anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Mike Hedges (Dwyrain Abertawe) (30 munud)

**Dydd Mawrth 11 Tachwedd 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth: Adroddiad y Farwnes Kay Andrews ynghylch Diwylliant a Thlodi – Ymateb gan Lywodraeth Cymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Y Cyflenwad Tai (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr Adolygiad o Asiantau Cefnffyrdd (30 munud)
- Dadl: Cymorth i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru (60 munud)

**Dydd Mercher 12 Tachwedd 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro) (30 munud)

**Dydd Mawrth 18 Tachwedd 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Diwygio) 2014 (15 munud)
- Dadl: Cyllideb Ddrafft 2015-16 (120 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2013-14 (60 munud)

**Dydd Mercher 19 Tachwedd 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2015/16 (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Darren Millar (Gorllewin Clwyd) (30 munud)